



Cofnodion Cyfarfod 05-04-22 – 7.30pm

Cyfarfod yn Neuadd y Pentref

Presennol Cynghorwyr Wendy Williams (Cadeirydd), John Emlyn Jones, Ceri Leeder, Gwenan Roberts, Geraint Owen, Arthur Williams, Gwyn Jones, Austin Roberts, John Lloyd Williams a Delyth Wynne (Clerc)
Karen Martin, Clwb Peldroed 'The Queen Bees'

Ymddiheuriadau Gwilym Williams

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. YMDDIHEURIADAU

Noder uchod.

3. DATGAN DIDDORDEB

Cyng Wendy – Eitem 6 Cynllunio: 0/49470
Cyng Gwenan – Eitem 6 Cynllunio: 0/49470
Cyng Gwyn – Eitem 6 Cynllunio: 0/49470

4. CLWB PELDROED 'THE QUEEN BEES'

Ymunodd Karen Martin â'r cyfarfod i drafod y rhwydi pêl-droed sydd mewn cyflwr gwael yn y cae chwarae a gofyn am gyllid – mae'r gost ar gyfer rhwydi yn amrywio rhwng £50.00 a £130.00 + TAW y pâr ac mae angen pris postio a strapiau felcro hefyd. Yna byddant yn cael eu cynnal gan y tîm. Dywedodd y Cyng Austin fod gohebiaeth wedi dod i law oddi wrth CBSC ynghylch cyllid a dywedodd y byddai'n trosglwyddo'r wybodaeth i Karen.

Soniwyd am seddi a chyfleusterau newid yn y gorffennol ond mae'n debyg nad yw'r cae yn addas.

Trafododd y Cynghorwyr yr angen i dynnu'r rhwydi i lawr ar ôl pob gêm i atal fandaliaeth a bywyd gwyllt yn mynd yn sownd yn y rhwydi.

Cynigiodd Cyng Geraint gefnogi'r tîm gyda chyfraniad, eiliodd Cyng Ceri y cynnig. Cynigiodd Cyng John Emlyn £200 o bunnoedd, cytunodd pob Cyngorydd.

5. COFNODION – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (01/03/22).

Cynigwyd cofnodion 01/03/22 yn gywir gan Cyng John Emlyn ac eiliwyd gan Cyng Ceri.



6. MATERION YN CODI

- **Etholiadau'r Cyngor:**

Gofynnodd Cyng Ceri am lythyr gael ei anfon at CBSC ynghylch pryder y Cyngor ynghylch y broses etholiadol yr oedd hi a'i chyd-Gynghorwyr yn teimlo ei bod yn ddryslyd iawn. Teimlai'r cynghorwyr ei fod yn broses oedd angen ei symleiddio.

- **Toiledau'r Pentref:**

Y Clerc i wirio a yw'r gyfradd gyflogau yn isafswm cyflog cenedlaethol neu'r gyfradd fyw gyda swyddogion CBSC.

Y toiledau i agor rhwng 1 Ebrill a 31 Hydref. Glanhawr i'w gyflogi am awr y dydd.

Y Clerc i lunio hysbyseb a'i ddosbarthu i bob Cynghorydd i gael sylwadau arno.

- **Mynwent yr Eglwys/Cyngor:**

Asesiad risg i'w ychwanegu fel eitem ar agenda y cyfarfod nesaf.

Dywedodd Cyng Ceri ei bod wedi derbyn un dyfynbris ar gyfer gwaith y fynwent. Cyng Gwenan i anfon copi o'r dyfynbris at y Clerc i'w ddosbarthu.

Eitem ar agenda y cyfarfod nesaf.

Cyng Austin i wneud ymholiadau gyda CBSC ynghylch cynllunio.

- **Baner y Pentref:**

Baner i'w gostwng ar 31 Hydref bob blwyddyn.

Baner i'w chodi o'r 31ain o Fawrth bob blwyddyn.

Eithriadau:

Baner i'w chodi a'i hedfan ar rai achlysuron:

1af Mawrth, Dydd Gŵyl Dewi.

Dydd Nadolig.

Baner i'w gostwng hanner mast ar rai achlysuron:

Marwolaeth/angladd aelod o Gymuned Eglwysbach neu rywun sydd â chysylltiad cryf â'r pentref;

Angladd y Frenhines.

Dywedodd Cyng Ceri fod rhaff newydd wedi cael ei hanfon gan y cwmni. Mae'r faner yn gyfan.



- **Awdit 20/21:**

The Clerk discussed the cost of a new printer which could be approximately £100.00. Cllr John Emlyn proposed that the Clerk order a printer. Cllr Austin seconded the proposal, all Councillors agreed.

Trafododd y Clerc gost argraffydd newydd a allai fod oddeutu £100.00. Cynigiodd Cyng John Emlyn fod y Clerc yn archebu argraffydd. Cyng Austin yn eilio y cynnig, holl gynghorwyr yn cytuno.

7. CYNLLUNIO

Mae'r cais wedi ei dynnu yn ôl.

- **Cyfeirnod: 0/49289**

Ymgeisydd: Mr Ben Adey-Davies

Cynllun: Datblygiad arfaethedig: Creu unedau llety gan gynnwys tair o unedau glampio â chyfleusterau ategol, ac addasu rhannau o'r ysgubor bresennol i greu dwy o unedau hunangynhwysol i westeion yn ychwanegol i'r llety gwely a brecwast presennol, ynghyd â thirlunio cysylltiedig a strwythurau lliniaru/gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â hafan eco newydd ar gyfer hamdden a lles

Safle: Gyffyllog, Ffordd Gyffyllog, Eglwysbach LL28 5SD

- **Cyfeirnod / Reference: 0/49469**

Ymgeisydd: Mr Geraint Davies

Cynllun: Amrywio amod rhif 2 a 4 caniatâd cynllunio 0/46319 Newidiadau i wedd flaen y ty ac estyniad cyfleustodau bychan yn y cefn, trosi adeilad allanol cyfagos i ganiatáu ar gyfer newidiadau i'r cynlluniau a gymeradwywyd a deunyddiau

Safle: Mount, Ffordd Pennant, Eglwysbach LL28 5UN

Dyddiad cau: 01/04/22

Dim sylw anffafriol.

- **Cyfeirnod: 0/49470**

Ymgeisydd: Arfon Jones

Cynllun: Cais ar gyfer estyniad ochr deulawr ac addasiadau cyffredinol i annedd bresennol

Safle: Waen Fechan, Ffordd Gyffyllog, Eglwysbach LL28 5SD

Dyddiad cau: 01/04/22

Dim sylw, wedi dod i law ar ôl ein cyfarfod diwethaf.

8. ADRODDIAD ARIANNOL

Cyfredol - £6,239.34

Angladdau - £566.40 – Angen talu Keith Webber oddeutu £100.



Cadw - £2,078.41

Taliadau Ar-lein:

Cyfredol:

- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- Clwb Peldroed 'The Queen Bees' - £200.00

Angladdau:

Dim.

9. GOHEBIAETH

- **E-Bost: Cyngor Tref Llanrwst - Partneriaeth Llifogydd Dyffryn Conwy - at sylw'r holl gynghorau cymuned yn ardal y bartneriaeth:**
Cyng Austin ar y partneriaeth. Angen ymateb a dweud bod angen cymorth i wneud cynllun. Eitem agenda y cyfarfod nesaf.
- **E-Bost: CBSC – Cyllid Sylfaen Asda ar gyfer Prosiectau i Rymuso Cymunedau Lleol:**
Er Gwybodaeth. Cyng Ceri i'w anfon ymlaen i unrhyw un a diddordeb. Wedi ei ychwanegu ar y dudalen Facebook.
- **E-Bost: CBSC - Coed Cadw:**
Er Gwybodaeth.
- **E-Bost: CBSC - Map Canopi Gwyrdd y Frenhines:**
Er Gwybodaeth.
- **E-Bost: CBSC – Swydd Clerc:**
Er Gwybodaeth.
- **E-Bost: CBSC – Wcrain: Cyngor Conwy yn diolch i breswylwyr am gynnig cefnogaeth:**
Er gwybodaeth. Cyng Ceri – Hwb Cymorth yn y pentref yn codi arian ac yn darparu hyfforddiant Saesneg a dillad/dillad gwely.
- **E-Bost: Clwb Tractor Dyffryn Conwy – Ras Tractor:**
Cyng Austin yn cynnig £50.00, Cyng Arthur yn eilio, holl gynghorwyr yn cytuno os ydy'r ras yn cael ei rhedeg.
- **E-Bost: Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru - Datganiad Newyddion: Corff Iechyd yn tynnu sylw at effaith Covid ar brofiadau plant o wasanaethau therapi iaith a lleferydd:**
Er Gwybodaeth.
- **E-Bost: Llywodraeth Cymru - Cylchlythyr Gwlad 1 Ebrill 2022:**
Er Gwybodaeth.
- **E-Bost: CVCS – Noson Darlithio:**
Er Gwybodaeth.



10. UNRHYW FATER ARALL

- Tir with Topan – does gan CBSC dim gwrthwynebiad i Bodnant ddefnyddio'r tir.
- Llifogydd Ffynnon Asa – CBSC yn cynnal astudiaeth feasibility – canlyniadau ym mis Mehefin/Gorffennaf. Yn dilyn hyn bydd CBSC yn llunio cynllun ac yna'n gwneud cais am yr arian ac yn dechrau'r gwaith yn 2023.
- Ffordd o'r ysgol i Hen Efail – ffordd wedi ei thrwsio ond y gwaith yn sal.
- Ddim wedi cael ymateb i'r e-bost am randiroedd.
- Bydd Wifi yn y neuadd erbyn diwedd Ebrill.
- Angen archebu sgip ar gyfer mis Mai
- Llwybyr rhwng Foel i Pen Mynydd wedi cau. Amryw o drigolion wedi codi'r peth. CBSC yn dweud nad oes ganddynt yr adnoddau i glirio. Y tir feddianwr yn hapus i bobl ddefnyddio y tir. Y Clerc i ysgrifennu at CBSC.

11. DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF

03/05/22
07/06/22
05/07/22
06/09/22
04/10/22
01/11/22
06/12/22

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 o'r gloch.